




## Diwrnod Agored ym Mhlas Tan y Bwlch

Daeth dros hanner cant o aelodau'r Gymdeithas i Danybwleh ar gyfer y Diwrnod Agored a chafwyd gwledd gan y pedwar

darlithydd. Gwelir tri ohonynt yn y llun isod, sef J. Elwyn Hughes, William Owen ac Arwel Jones yn ymlacio yn ystod y Cyfarfod Blynyddol. Roedd hi'n ddiwrnod bendigedig drwyddi draw.



Gobeithir cynnal y Diwrnod Agored y flwyddyn nesaf ym Mhortmeirion. Mae'r pentref wedi cael ei logi'n barod. Argoela fod yn ddiwrnod llwyddiannus eto. Dowch i gefnogi!



Y pedwerydd darlithydd oedd David Meredith, a gwelir ef yma yn llofnodi ei gyfrol hynod boblogaidd, a lansiwyd yn Oriol Môn yn ddiweddar – *David Meredith Talks to Sir Kyffin Williams - Kyffin in Venice*, (Gwasg Gomer).



Cymdeithas Bob Owen

# FFAIR LYFRAU, RECORDIAU A CHARDIAU ELUSENNOL

**Ysgol y Berwyn, Y Bala,  
DYDD SADWRN, 23 Medi, 2006**

*Miloedd o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar werth, yn ogystal â chardiau elusennol, recordiau, a llawer mwy.*

**GOBEITHIR CYNNAL OCSIWN YN YSTOD Y PRYNHAWN**

Am fwy o fanylion anfonwch amlen â chyfeiriad a stamp at y Golygydd (☎ 01678 540652) i gael rhestr o'r eitemau a fydd yn cael eu cynnig yn yr ocsiwn)

**MYNEDIAD £1 (YN CYNWYS TÊ A CHOFFI)**